# Yr Ail Gynulliad - Cyfarfod Llawn (217)

# Dydd Mawrth, 11 Gorffennaf 2006

## AGENDA

## Bydd y cyfarfod yn dechrau am 2.00pm


Eitem 1 - Cynnig i ethol Pwyllgor Penderfyniadau Cynllunio

Eitem 2 - Cwestiynau i'r Prif Weinidog

Eitem 3 - Y Datganiad Busnes

Eitem 4 - Datganiad gan y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus: Adolygiad Beecham

Eitem 5 - Datganiad gan y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus: Dyraniadau Cyfalaf

Eitem 6 - Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) (Diwygio) 2006

Eitem 7 - Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Cafa-cafa mewn Bwyd (Cymru) 2006

Eitem 8 - Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Halogion mewn Bwyd (Cymru) (Rhif 2) 2006

Eitem 9 - Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn y Gwasanaethau Tân ac Achub (Codi Taliadau) (Cymru) 2006

Eitem 10– Cynnig i ddirprwyo swyddogaethau o dan Baragraff 2 (3) (c) Atodlen 1 Deddf Cydraddoldeb 2006 i'r Prif Weinidog

Eitem 11 – Cynnig i gymeradwyo adolygiad o wasanaethau ambiwlans

Eitem 12 - Dadl ar Adroddiad Blynyddol Iaith Pawb

.....................................

## Eitem 1 - Cynnig i ethol Pwyllgor Penderfyniadau Cynllunio

**NDM3173 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol yn penderfynu:

1. Bod Pwyllgor, i'w adnabod fel Pwyllgor Penderfyniadau Cynllunio (2) 2006-5, yn cael ei sefydlu yn unol â Rheol Sefydlog 17 y Cynulliad i gyflawni swyddogaethau'r Cynulliad mewn perthynas â'r materion yn yr Atodlen i'r cynnig hwn a nodir ar gyfer pob mater yn yr atodlen honno a bod swyddogaethau'r Cynulliad o ran y pethau hynny yn cael eu dirprwyo i'r Pwyllgor hwnnw.

2. Mai aelodau'r Pwyllgor hwnnw fydd:

Carwyn Jones (Cadeirydd)
Lorraine Barrett
Mick Bates
Jocelyn Davies

3. Bod y Pwyllgor yn peidio â bod pan fydd Cadeirydd y Pwyllgor yn llofnodi'r llythyr penderfynu yn unol â Rheol Sefydlog 17.16 neu ar 31 Hydref 2006, pa un bynnag sy'n dod gyntaf.

4. Os bydd y Pwyllgor yn peidio â bod heb i'r Cadeirydd lofnodi llythyr penderfynu mewn perthynas â'r mater a nodir yn yr Atodlen i'r cynnig hwn, yna, yn yr achos hwnnw, dirprwyir y swyddogaethau a nodir ym mharagraff 1 uchod, mewn perthynas â'r mater hwnnw, i'r Prif Weinidog.

**Atodlen**

**CAIS CYNLLUNIO A ALWYD-I-MEWN DAN ADRAN 77 DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990 GAN MR A LLOYD AR GYFER CYNNIG I GODI TY ANNEDD A FFURFIO MYNEDFA NEWYDD I'R BRIFFORDD YN WAUNBANT, LLEDROD, CEREDIGION**

**APÊL CYNLLUNIO DAN ADRAN 78 DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990 GAN REDROW HOMES (NORTH WALES) LTD AR GYFER CYNNIG I ADFER HEN WAITH BRICS A CHWAREL, DATBLYGU HYD AT 300 O DAI ANNEDD, CREU LLECYN AGORED, COETIR, ARDAL O GREU CYNEFIN A THIRLUNIO, ADEILADU MYNEDFA NEWYDD A GWELL I GERBYDAU A CHERDDWYR YN HEN WAITH BRICS LANE END, CHURCH ROAD, BWCLE, SIR Y FFLINT**

……………………………

## Eitem 2 - Cwestiynau i'r Prif Weinidog

……………………………

## Eitem 3 - Y Datganiad Busnes

……………………………

## Eitem 4 - Datganiad gan y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus: Adolygiad Beecham

……………………………

## Eitem 5 - Datganiad gan y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus: Dyraniadau Cyfalaf

……………………………

## Eitem 6 - Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) (Diwygio) 2006

**NDM3177 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) (Diwygio) 2006 y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 20 Mehefin 2006.

**NDM3178 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 4 Gorffennaf 2006 ynghylch y rheoliadau drafft, Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) (Diwygio) 2006; a

2. Yn cymeradwyo bod y rheoliadau drafft, Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) (Diwygio) 2006 yn cael eu gwneud yn unol ag:

a) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 20 Mehefin 2006; a
b) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 27 Mehefin 2006.

**Dogfennau Ategol**
Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) (Diwygio) 2006
Adroddiad y Pwyllgor Deddfau
Yr Arfarniad Rheoliadol -Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno

**......................................**

## Eitem 7 - Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Cafa-cafa mewn Bwyd (Cymru) 2006

**NDM3179 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Cafa-cafa mewn Bwyd (Cymru) 2006 y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 27 Mehefin 2006.

**NDM3180 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 4 Gorffennaf 2006 ynghylch y rheoliadau drafft, Rheoliadau Cafa-cafa mewn Bwyd (Cymru) 2006; a

2. Yn cymeradwyo bod y rheoliadau drafft, Rheoliadau Cafa-cafa mewn Bwyd (Cymru) 2006 yn cael eu gwneud yn unol ag:

a) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 27 Mehefin 2006;

b) y Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 4 Gorffennaf 2006; ac
c) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 27 Mehefin 2006.

**Dogfennau Ategol**
Rheoliadau Cafa-cafa mewn Bwyd (Cymru) 2006
Adroddiad y Pwyllgor Deddfau
Y Memorandwm Cywiriadau
Yr Arfarniad Rheoliadol -Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno

......................................

## Eitem 8 - Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Halogion mewn Bwyd (Cymru) (Rhif 2) 2006

**NDM3181 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Halogion mewn Bwyd (Cymru) (Rhif 2) 2006 y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 27 Mehefin 2006.

**NDM3182 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 4 Gorffennaf 2006 ynghylch y rheoliadau drafft, Rheoliadau Halogion mewn Bwyd (Cymru) (Rhif 2) 2006; a

2. Yn cymeradwyo bod y rheoliadau drafft, Rheoliadau Halogion mewn Bwyd (Cymru) (Rhif 2) 2006 yn cael eu gwneud yn unol ag:

a) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 27 Mehefin 2006; a
b) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 27 Mehefin 2006.

**Dogfennau Ategol**
Rheoliadau Halogion mewn Bwyd (Cymru) (Rhif 2) 2006
Adroddiad y Pwyllgor Deddfau
Yr Arfarniad Rheoliadol 1 -Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno
Yr Arfarniad Rheoliadol 2 -Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno

……………………………….

## Eitem 9 - Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn y Gwasanaethau Tân ac Achub (Codi Taliadau) (Cymru) 2006

**NDM3183 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Gorchymyn y Gwasanaethau Tân ac Achub (Codi Taliadau) (Cymru) 2006 y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ar 27 Mehefin 2006.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**
Yn unol â'r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae'r Llywydd wedi penderfynu ym mha drefn y dylid eu cymryd at ddibenion trafodaeth. Bydd y pleidleisiau'n cael eu cynnal ar wahân:

***(1+2+3)***

**Gwelliant 1 - Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cyfarwyddo Llywodraeth Cynulliad Cymru i gyhoeddi canllawiau i'r Awdurdodau Tân ac Achub ynghylch yr amgylchiadau lle y dylid codi tâl am wasanaethau a bennir dan y Gorchymyn hwn.

**Gwelliant 2 - Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu nad yw'r Gorchymyn hwn yn cynnwys darpariaeth i'r Awdurdodau Tân ac Achub godi tâl ar berchnogion neu breswylwyr am ymateb i alwadau di-sail a gynhyrchir gan systemau larwm tân awtomatig dro ar ôl tro.

**Gwelliant 3 - Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yng nghyd-destun Adran 6 o Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004, yn cyfarwyddo Llywodraeth Cynulliad Cymru i egluro'n well dan ba amgylchiadau y caiff Awdurdodau Tân ac Achub godi tâl am gyngor a roddir i bobl ynglyn ag eiddo lle mae rhywun yn masnachu, neu'n cadw busnes neu ymgymeriad arall.

**NDM3184 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 4 Gorffennaf 2006 ynghylch y gorchymyn drafft, Gorchymyn y Gwasanaethau Tân ac Achub (Codi Taliadau) (Cymru) 2006; a

2. Yn cymeradwyo bod y gorchymyn drafft, Gorchymyn y Gwasanaethau Tân ac Achub (Codi Taliadau) (Cymru) 2006 yn cael ei wneud yn unol ag:

a) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 27 Mehefin 2006; a
b) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 27 Mehefin 2006.

**Dogfennau Ategol**
Gorchymyn y Gwasanaethau Tân ac Achub (Codi Taliadau) (Cymru) 2006
Adroddiad y Pwyllgor Deddfau
Yr Arfarniad Rheoliadol -Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno

**.....................................**

## Eitem 10 – Cynnig i ddirprwyo swyddogaethau o dan Baragraff 2 (3) ( c ) Atodlen 1 Deddf Cydraddoldeb 2006 i'r Prif Weinidog

**NDM3174 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu dan adran 62 (1) (b) Deddf Llywodraeth Cymru 1998, yn penderfynu dirprwyo i Brif Weinidog Cymru swyddogaeth y Cynulliad Cenedlaethol a gynhwysir yn neu o dan baragraff 2(3) (c) Atodlen 1 Deddf Cydraddoldeb 2006 ac eithrio'r rhai na ellir, yn ôl y gyfraith, mo'u dirprwyo yn y modd hwnnw.

Ni fydd dim yn y cynnig hwn yn lleihau goruchafiaeth awdurdod y Cynulliad llawn nac yn lleihau rôl Pwyllgorau'r Cynulliad wrth arfer y swyddogaethau uchod.

Dirprwyir y swyddogaeth hon gan wybod y dirprwyir y swyddogaeth honno ymhellach,

fel y bo'n briodol, i'r Gweinidog Cynulliad priodol ac i staff.

**Dogfennau Ategol**
*Gellir canfod copi o Ddeddf Cydraddoldeb 2006 ar y rhyngrwyd drwy ddilyn y ddolen hon: http://www.opsi.gov.uk/acts/acts2006/ukpga_20060003_en.pdf*

.....................................

## Eitem 11 – Cynnig i gymeradwyo adolygiad o wasanaethau ambiwlans

**NNDM3190 Brian Gibbons (Aberafan); Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr); Helen Mary Jones (Canolbarth a Gorllewin Cymru); Jonathan Morgan (Canol De Cymru); Jenny Randerson (Canol Caerdydd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn penderfynu:

1. y dylai'r penderfyniad ar 20 Mehefin (NDM3100, wedi'i ddiwygio) beidio â chael effaith, ond;

2. y dylai Archwilydd Cyffredinol Cymru gyflawni'r camau a nodir ym mharagraff 2(a) a pharagraff 2(b) y penderfyniad hwnnw i:

a) edrych ar effeithiolrwydd safonau perfformiad, strwythurau, materion staffio, pwysau o ran arian ac adnoddau, ynghyd ag unrhyw faterion perthnasol eraill yr ystyrir eu bod yn berthnasol; a

b) ystyried y goblygiadau ar gyfer y dyfodol a gwneud argymhellion yn unol â hynny;

yn unol â'r pwerau a freiniwyd ynddo; a

3. y dylid paratoi adroddiad am y canfyddiadau yn unol â hynny.

.....................................

## Eitem 12 - Dadl ar Adroddiad Blynyddol Iaith Pawb

**NDM3185 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ail-ddatgan ei gefnogaeth i nod hirdymor Llywodraeth Cynulliad Cymru o greu cenedl ddwyieithog;

2. Yn nodi cyhoeddi *"Adroddiad Blynyddol Iaith Pawb a'r Cynllun Iaith Gymraeg 2005-06",* a'r cynnydd da a wnaed yn ystod y flwyddyn ddiwethaf; a

3. Yn cadarnhau polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru o hybu'r defnydd o'r Gymraeg ym mhob agwedd ar fywyd yng Nghymru drwy ddulliau eraill ac eithrio cyflwyno dyletswyddau statudol newydd ar draws y sector preifat mewn perthynas â'r Gymraeg, y tu hwnt i ofynion y Ddeddf gyfredol ar yr Iaith Gymraeg.

***Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:***
*Yn unol â'r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae'r Llywydd wedi penderfynu ym mha drefn y dylid eu cymryd at ddibenion trafodaeth. Bydd y pleidleisiau'n cael eu cynnal ar wahân:*

***(1+2)***
***(3+4)***
***(5+6+7)***
***(8+9+10)***

**Gwelliant 1 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru); Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru); Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Dileu popeth ar ôl '2005-06' ym mhwynt 2 a rhoi pwynt 3 newydd yn ei le:

'Yn adolygu'r angen am ddeddfwriaeth i gryfhau'r iaith Gymraeg.'

**Gwelliant 2 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru); Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru); Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cyfarwyddo Llywodraeth Cynulliad Cymru i gadw Bwrdd yr Iaith Gymraeg gyda'i bwerau, ei gyfrifoldeb a'i gyllid presennol, gan nad yw Llywodraeth y Cynulliad wedi dadlau ei hachos dros uno, fel ag y'i nodir yn ei phapur ymgynghori.

**Gwelliant 3 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw am ddatganoli’r pwer i ddeddfu ar yr iaith Gymraeg i’r Cynulliad Cenedlaethol yn 2007.

**Gwelliant 4 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth y Cynulliad i ddod â’r cyfleustodau o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993, gan ddefnyddio’i phwerau i enwi sefydliadau dan Adran 6 o’r Ddeddf.

**Gwelliant 5 - Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i adolygu'r canllawiau a roddir i Awdurdodau Addysg Lleol ynghylch lleoedd gwag mewn ysgolion er mwyn sicrhau bod ymgynghoriadau cynhwysol ac ystyrlon yn cael eu cynnal gyda rhieni a llywodraethwyr ysgol ac yn credu y bydd methu â gwneud hynny’n tanseilio amcanion Iaith Pawb.

**Gwelliant 6 - Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i adolygu ei chanllawiau i Awdurdodau Addysg Lleol i sicrhau eu bod yn cyhoeddi gwybodaeth benodol am oblygiadau ieithyddol trosglwyddo disgyblion o ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog y bwriedir eu cau i ysgolion eraill sy’n bennaf Saesneg eu cyfrwng, ac yn credu y bydd methu â gwneud hynny’n tanseilio nodau Iaith Pawb.

**Gwelliant 7 - Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig

Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i roi blaenoriaeth i dai fforddiadwy yn strategaeth 'Iaith Pawb'.

**Gwelliant 8 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig

Yn credu y dylai egwyddor hawliau ieithyddol chwarae rhan allweddol yn nod Llywodraeth y Cynulliad o greu cenedl ddwyieithog.

**Gwelliant 9 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig

Yn credu bod angen deddfwriaeth newydd yn bennaf i ymgorffori'r cyfleustodau hynny sydd wedi mudo o'r sector cyhoeddus i'r sector preifat ers pasio'r Ddeddf gyfredol ar yr Iaith Gymraeg.

**Gwelliant 10 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig

Yn credu y dylid datganoli'r holl bwerau dros yr Iaith Gymraeg i'r Cynulliad Cenedlaethol.

**Dogfennau Ategol**
*E-bostiwyd copïau Cymraeg a Saesneg o "Adroddiad Blynyddol Iaith Pawb a'r Cynllun Iaith Gymraeg 2005-06" at Aelodau'r Cynulliad ar 4 Gorffennaf 2006.*

*Gellir gweld Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 trwy ddilyn y ddolen hon: http://www.opsi.gov.uk/acts/acts1993/Ukpga_19930038_en_1.htm*

......................................

**Rhagwelir y bydd y cyfarfod yn dod i ben erbyn 5.30pm**

**……………………………………………..**

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am**

**2.00pm ddydd Mercher, 12 Gorffennaf 2006**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**